**EITEM AR YR AGENDA: 6**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20fed Medi 2010**

**OPSIYNAU CYLLID 2011/12**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

**Diben yr Adroddiad**

1 Mae'r adroddiad hwn yn:
   (i) cynghori'r Aelodau ar y sefyllfa bresennol ynglŷn â chyllideb 2011/12; ac yn
   (ii) adrodd yn ôl wrth y Panel Gweithredol ar gyfarfod Gweithgor Datblygu Cyllideb y Panel a gyfarfu ddydd Mawrth 14 Medi 2010.

**Cefndir**

2 Yn ystod eu cyfarfod ym mis Gorffennaf 2010, penderfynodd y Panel Gweithredol sefydlu Gweithgor yn cynnwys Aelodau'r Panel, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch ariannu'r sector gyhoeddus a'r ffaith fod angen penderfynu ar, a rhoi newidiadau ar waith mewn amgylchedd sydd yn newid yn gyflym. Byddai'r Gweithgor yn cwrdd â swyddogion i lunio strategaeth a chynigion i fynd i'r afael â chyllideb 2011/12. Mae'r Gweithgor yn cynnwys Y Cynghorwyr Frobisher (Sir Ddinbych), Morris-Jones (Ynys Môn), W Roberts (Conwy), T Roberts (Gwynedd), Dunn (Sir y Fflint) ac Evans (Wrecsam).

3 Y sefyllfa ar hyn o bryd, ac fel ag adroddwyd wrth yr Aelodau ar 14 Medi, yw bod y sector gyhoeddus yng Nghymru yn paratoi ar gyfer gostyngiadau digynsail yn yr arian a ddyrannir i fwyafrif ei meysydd gweithgaredd. Nid yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael ei heithrio rhag y gostyngiadau hyn; yn wir mae Gwasanaethau Tân ac Achub Lloegr yn perthyn i'r categori nas diogelir gan y Llywodraeth. Golyga hyn y bydd lefel y

gostyngiadau sydd yn ofynnol gan Weinidogion y DU ar lefel debyg iawn i'r rheiny sydd ar y gweill gan yr Awdurdodau Lleol. Er nad yw Awdurdodau Tân ac Achub Cymru wedi eu hysbysu'n ffurfiol hyd yma, mae'r gyllideb yn seiliedig ar y dybiaeth na fydd y Gwasanaeth yng Nghymru yn cael ei diogelu gan y Llywodraeth. Ceir mwy o wybodaeth am y sefyllfa genedlaethol unwaith y bydd y Llywodraeth wedi cyhoeddi ei Hadolygiad Cynhwysfawr o Wariant ym mis Hydref. Ond, beth bynnag fydd canlyniad yr adolygiad hwnnw, mae'n amlwg y bydd yr Awdurdod yn wynebu cryn sialens.

## Gwybodaeth

4 Cyllideb refeniw Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer 2010/11 yw £32.1miliwn.

- Caiff 75% (£24 miliwn) o gyllideb y Gwasanaeth ei gwario ar gostau gweithwyr a hyfforddiant;
- 7.8% (£2.5 miliwn) yn ychwanegol yn cael ei wario ar gyllid cyfalaf;
- caiff gweddill y Gyllideb ei gwario ar:
  - adeiladau (£1.2 miliwn/3.75%);
  - costau teithio gan gynnwys tanwydd (£1 miliwn/3.1%);
  - cyflenwad gan gynnwys lifrai (£1 miliwn/3.1%);
  - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (£1.5 miliwn/4.7%);
  - contractau allanol (£1 miliwn/3.1%).

5 Deallir fod rhai awdurdodau lleol yn cynllunio am ostyngiadau yn y tymor-canolig (3-5 mlynedd) o hyd at 25% yn eu cyllidebau ar gyfer 2010/11. Byddai targed tebyg i gyllideb y Gwasanaeth yn gofyn am doriadau o hyd at £24 miliwn - hynny yw, y swm yr ydym yn ei wario ar hyn o bryd ar gostau uniongyrchol gweithwyr yn unig. Byddai'r angen i ostwng y gyllideb i £24 miliwn, dros pa bynnag gyfnod, yn amlwg yn golygu gostyngiadau arwyddocaol mewn costau gweithwyr.

6 Derbyniodd y Gweithgor Datblygu Cyllideb wybodaeth ar sefyllfa gyfredol y gyllideb mewn perthnasedd â gwariant gyfalaf a refeniw. Cawsant hefyd eu briffio ar effaith cryn ostyngiad yn y gyllideb ar broffil y Gwasanaeth. Yr hyn a oedd yn gwbl amlwg, hyd yn oed pe byddai'r gyllideb yn aros yn £32.1 miliwn, y byddem yn cwrdd â chryn sialens, gan ystyried y pwysau allanol ar y gyllideb megis costau tanwydd ac ynni; cynnydd yng nghostau

cyllid gyfalaf i gwrdd ag ymrwymiadau; ansicrwydd ynghylch tâl a chostau mentrau allanol megis Firelink a Dimensiynau Newydd.

7 Trafodwyd senarios eraill ynghyd â'u heffaith ddichonadwy. Daethpwyd i'r casgliadau canlynol:

8 Yn ddibynnol ar union lefelau'r gostyngiadau angenrheidiol yn y gyllideb, mae tebygoliaeth gref y bydd gostyngiadau yn nifer y staff, gostyngiadau neu derfyniadau i'r gwasanaeth a gostyngiad mewn gweithgareddau anstatudol. Mae'n annhebygol, yn rhai o'r senarios, y bydd modd cwrdd â'r gostyngiadau angenrheidiol hyn drwy golliadau naturiol yn unig.

9 O wybod bod cyfraniadau'r chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru tuag at wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfartaledd yn 2.8% o'u cyllideb, mae'n bosib y bydd cysylltiad uniongyrchol â chanran yr arbedion ac o ganlyniad caiff hyn effaith anghymesur ar y Gwasanaeth Tân ac Achub.

10 Gofynnodd y Gweithgor i'r swyddogion lunio cynigion, yn amodol ar gymeradwyaeth y Trysorydd, am ostyngiad o 6% yng nghyllideb y Gwasanaeth dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau gyda 2011/12. Bydd y senario yn golygu gostyngiad o £1.92 miliwn yng nghyllideb refeniw'r Gwasanaeth.

11 Mae Swyddogion ar hyn o bryd yn datblygu senario gyda'r bwriad o'i drafod gyda'r Gweithgor yn ystod eu cyfarfod nesaf ar 8 Hydref 2010.

12 Yn dilyn y cyfarfod, cafwyd cyngor gan y Trysorydd fod y cynnig yma, o bosib, yn rhy uchelgeisiol ac y dylai'r Aelodau nodi'r sefyllfa yn eu hawdurdod lleol hwythau lle bydd effaith ar ystod eang o wasanaethau.

**Argymhelliad**

13 Y dylai'r holl Aelodau nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ac y caiff adroddiad pellach ei chyflwyno yn ystod y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd.

**Treth y Gwasanaeth Tân ac Achub fel cyfran o gyllidebau yr awdurdodau cyfansoddol**

| Cyllidebau'r Awdurdodau Cyfansoddol | Cyfanswm Cyllideb 2010/11 | Cyfraniad at y Gwasanaeth Tân ac Achub 2010/11 | % |
|---|---|---|---|
| | £ | £ | |
| Conwy | 186,914,000 | 5,280,536 | 2.83% |
| Sir Ddinbych | 175,626,000 | 4,601,610 | 2.62% |
| Sir y Fflint | 240,407,500 | 7,119,294 | 2.96% |
| Gwynedd | 216,700,000 | 5,572,851 | 2.57% |
| Wrecsam | 208,296,174 | 6,265,922 | 3.01% |
| Ynys Môn | 118,900,000 | 3,253,187 | 2.74% |
| | | | |
| CYFANSWM GWIRIONEDDOL | 1,146,843,674 | 32,093,400 | 2.80% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enghraifft: mae lleihad o 0.3%<br>yn golygu lleihad o £3,400,000<br>10.5% o gyllideb y Gwasanaeth Tân ac Achub** | 1,146,843,674 | 28,671,092 | 2.50% |